

CELTIC ADVANCED LIFE SCIENCE INNOVATION NETWORK
CALIN
RHWYDWAITH GELTAIDD ARLOESI GWYDDORAU BYWYD UWCH

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# LLESIANT YN Y GWEITHLE

## Gwerthfawrogi eich effaith ar iechyd a llesiant: Cyflwyniad i elw cymdeithasol ar fuddsoddiad

**Gan Dr Ned Hartfiel ac Abraham Makanjuola** (Hwb Gwerth Cymdeithasol CHEME) **a Dr Lucy Bryning** (CALIN)

CALIN@Prifysgol Bangor



# Diolchiadau

Cyflawnwyd y gwaith gan Rwydwaith Celtaidd Arloesi Gwyddor Bywyd Uwch (CALIN), Rhaglen Iwerddon Cymru 2014–2020 a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Grant a rhif achos gweithredol 80855.

Mae'r wybodaeth, yr adnoddau a'r dolenni a geir yn y llyfryn hwn yn gywir adeg ei gynhyrchu (Mawrth 2023) ond gallant newid dros amser.



# Trosolwg

**Mewn hinsawdd o gyllidebau cyfyngedig, mae angen cael mwy o ddealltwriaeth o'r hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi wrth benderfynu sut i ddyrannu adnoddau.**

Mae'n bosibl na fydd dulliau enillion ar fuddsoddiad traddodiadol yn dal gwerth llawn gweithgareddau sy'n anelu at wella iechyd a llesiant, gan y gallai'r budd a'r gwerth i'r person sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hybu iechyd fod yn anodd eu mesur a gallant effeithio nid yn unig ar y person sy'n cymryd rhan ond hefyd y bobl yn ei rwydwaith ehangach. Mae dadansoddiad enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI) yn fframwaith sy'n ceisio sefydlu'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir gan weithgareddau trwy werthuso ei effaith ar y bobl yr effeithir arnynt fwyaf.

Mae'r gweithdy sy'n cyd-fynd â'r llyfryn hwn yn rhoi trosolwg o beth yw gwerth cymdeithasol a pham ei bod yn bwysig mesur y costau, y buddion a'r gwerth a grëir gan weithgareddau hybu iechyd. Yn y llyfryn hwn, amlinellir canllaw i'r camau sydd angen eu cymryd i gynnal dadansoddiad SROI.





## Beth yw gwerth cymdeithasol?

> *Mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud â deall pwysigrwydd cymharol y newidiadau y mae pobl yn eu profi a defnyddio'r mewnwelediadau a gawn o'r ddealltwriaeth hon i wneud gwell penderfyniadau*
>
> **Social Value International**

- **Pwysigrwydd cymharol** y mae pobl yn ei roi ar y **newidiadau y maent yn eu profi** yn eu bywydau
- Mae **rhywfaint o'r gwerth** hwn, ond nid y cyfan, wedi'i **gynnwys ym mhrisiau'r farchnad**
- Mae'n bwysig **mesur gwerth cymdeithasol** o safbwynt y rhai y mae gwaith sefydliad yn **effeithio arnynt**
- Mae enghreifftiau o werth cymdeithasol yn cynnwys gwerth **'gwella hyder'** neu **'lesiant meddwl gwell'**
- **Mae'r rhain yn bwysig** ond yn aml nid ydynt yn cael eu mesur yn yr un ffordd â gwerth ariannol

# Egwyddorion gwerth cymdeithasol

1. Cynnwys Rhanddeiliaid
2. Deall Beth sy'n Newid
3. Gwerthfawrogi'r Pethau Sy'n Bwysig
4. Dim ond Cynnwys yr Hyn Sy'n Berthnasol
5. Peidio â Gor-hawlio
6. Bod yn Dryloyw
7. Dilysu'r Canlyniad
8. Bod yn Ymatebol

Canfyddwch fwy: **youtu.be/WfonERDmqnY**

Ffynhonnell: ***Social Value International***
**www.socialvalueint.org/principles**





# Polisi’r llywodraeth a mesur gwerth cymdeithasol

**Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012:**
Mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried sut mae eu gwasanaethau’n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol

**Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015:**
Mae gan gyrff cyhoeddus rwymedigaeth gyfreithiol i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd

**Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (2018):**
Yn argymell ‘Dadansoddiad o Gost a Budd Cymdeithasol’ (CBA Cymdeithasol) i asesu gwerth am arian yn seiliedig ar ba mor dda y mae ymyriadau’n gwneud y gorau o werth cymdeithasol (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) o ran costau a buddion.





# Cefndir cryno i Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)

- **Diwedd yr 1990au:** datblygwyd SROI gan Gronfa Datblygu Economaidd Roberts (REDF), gan ddarparu dull i fentrau dielw a chymdeithasol fesur faint yr oedd eu gweithgareddau yn gwella bywydau pobl
- **2000au cynnar:** datblygwyd SROI ymhellach yn y DU o dan y Sefydliad Economeg Newydd (NEF)
- **2009:** Cyhoeddodd Swyddfa Cabinet y DU 'Ganllaw i Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad'
- **2014:** Crëwyd Banc Gwerth Cymdeithasol HACT a defnyddiwyd 'prisiad llesiant' – set o fetrigau gwerth cymdeithasol methodolegol gyson – i roi gwerth ar ganlyniadau pwysig.
- **2022:** Uwchraddiwyd Banc Gwerth Cymdeithasol HACT a'i ryddhau fel offeryn HACT Mewnwelediad i Werth Cymdeithasol.



## Beth yw SROI?

- Datblygwyd o ddadansoddiad cost a budd
- Fframwaith ar gyfer mesur y gwerth cymdeithasol a grëir gan weithgareddau
- Mae'r cysyniad o werth yn ehangach na'r hyn y gellir ei ddal gan brisiau'r farchnad
- Yn defnyddio astudiaethau achos, gwybodaeth ansoddol, feintiol ac ariannol
- Rhoddir gwerthoedd ariannol i newidiadau mewn canlyniadau

# **Enghraifft:** Gwerth cymdeithasol buddsoddi mewn iechyd cyhoeddus ar hyd cwrs bywyd

| Cyfeiriad | Testun iechyd cyhoeddus | Gwlad | Poblogaeth | Nod yr Ymyriad | Cymhareb SROI amrwd ar gyfer gorwel amser a aseswyd | Sgôr ansawdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blynyddoedd cynnar a phlentyndod** | | | | | | |
| Sefydliad Economeg Newydd 2009a [36] | Iechyd a llesiant cyffredinol | Cymru | Pobl ifanc a phlant (o tua 5 i 14) a'u teuluoedd | Gwasanaeth ymyrraeth gynnar ataliol i bobl ifanc a phlant (o tua 5 i 14 oed) a'u teuluoedd, lle mae problemau emosiynol, ymddygiadol neu iechyd meddwl wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar. | £7.60/£1 a fuddsoddwyd | 9 |
| Winrow a Tudor Edwards 2018 [43] | Llesiant meddyliol | Cymru | Plant oed ysgol gynradd | Yn cyflwyno sesiynau cerddoriaeth mewn dwy ysgol mewn cymdogaethau difreintiedig yn seiliedig ar ddull El Sistema - y nod yw gwella canlyniadau addysgol a llesiant plant sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol. | £6.69/£1 a fuddsoddwyd | 9 |
| **Oedolion (prif gyflogaeth a blynyddoedd atgenhedlu)** | | | | | | |
| Gingerbread a'r Sefydliad Economeg Newydd 2013 [53] | Iechyd a llesiant cyffredinol | Cymru | Teuluoedd un rhiant | Darparu cyfleoedd i deuluoedd un rhiant ddod at ei gilydd, cyfarfod â phobl newydd a rhannu profiadau. | £4.27/£1 a fuddsoddwyd | 9 |
| Inge 2012 [56] | Cyflogaeth | Cymru a Lloegr | Pobl ifanc dan anfantais (yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn ddigartref) | Mae Barod am Waith yn rhaglen Busnes yn y Gymuned (BITC) sy'n ymgysylltu â busnesau i gefnogi grwpiau difreintiedig, yn enwedig pobl sydd wedi profi digartrefedd, i mewn i gyflogaeth. | £3.12/£1 a fuddsoddwyd | 10 |
| **Oedolion hŷn** | | | | | | |
| Jones, Windle a Tudor Edwards 2018 [61] | Llesiant meddyliol | Cymru a Lloegr | Unigolion sy'n byw gyda dementia | Rhaglen celfyddydau gweledol i bobl sy'n byw gyda dementia i wella eu hiechyd meddwl a'u llesiant. | £5.18/£1 a fuddsoddwyd | 10 |
| Cadw'n Iach Gartref 2012 [63] | Ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd | Lloegr | Pobl hŷn sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth | Helpu pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth a gwella ansawdd eu bywyd. | £11/£1 a fuddsoddwyd | 5 |

**Ffynhonnell:** *Ashton, K., Schröder-Bäck, P., Clemens, T. et al. The social value of investing in public health across the life course: a systematic scoping review. BMC Public Health 20, 597 (2020).* doi.org/10.1186/s12889-020-08685-7



# **Sut i wneud SROI:** Y chwe cham

1. Nodi rhanddeiliaid
2. Mapio canlyniadau
3. Mesur a gwerthfawrogi canlyniadau
4. Sefydlu effaith
5. Cyfrifo ystod cymarebau SROI
6. Adrodd



# Pwyntiau myfyrio

- Pa **sefydliad(au)** ydych chi'n ymwneud â nhw?
- Pa **weithgareddau** y mae eich sefydliad yn eu darparu?
- Pwy yw'r **rhanddeiliaid** sy'n profi newidiadau o'r rhaglen/gweithgareddau?
- Pa **ganlyniadau a brofir** (h.y. y pethau sy'n newid ym mywydau pobl o ganlyniad i'r rhaglen neu weithgareddau)?
- Sut gallwch chi **fesur canlyniadau'r** gweithgareddau hyn, dros amser?
- Pa mor bwysig yw'r **newidiadau** i'r rhanddeiliaid?
- Sut allwch chi **roi gwerth ariannol** ar y canlyniadau hyn?
- Sut gall eich sefydliad **elwa o SROI?**
- Oes **gennych chi ddiddordeb** mewn dysgu mwy am fesur a gwerthfawrogi effaith gymdeithasol eich gwasanaethau?



# Rhagor o adnoddau

**Maximise your Impact: A Guide for Social Entrepreneurs**
socialvalueuk.org/wp-content/uploads/2017/10/MaximiseYourImpact.24.10.17.pdf

**Measuring and Managing Social Value: An organisational handbook available as part of the Mantell Gwynedd toolkit**
mantellgwynedd.com/measuring-and-managing-social-value-toolkit.php

**Measuring the Social Impact of Community Investment**
www.ceci.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/MeasuringSocialImpactHACT2014.pdf

**HACT (New) Social Value Bank**
hact.org.uk/tools-and-services/licensing-conditions-for-the-uk-social-value-bank

**Social Value Self-Assessment Tool**
socialvalueuk.org/resources/social-value-self-asessment-tool



# Ynghylch Hwb Gwerth Cymdeithasol CHEME

Gan ddefnyddio offeryn HACT Mewnwelediad i Werth Cymdeithasol, mae'r Ganolfan Gwerth Cymdeithasol yn CHEME yn cynnig cymorth, cyngor, hyfforddiant ac ymgynghoriaeth i sefydliadau i fesur a chyfleu'r newidiadau cadarnhaol y maent yn eu creu ar gyfer pobl a'r amgylchedd. Mae'n cael ei gyd-gyfeirio gan Dr Ned Hartfiel a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards, gan dynnu ar arbenigedd rhwydwaith ehangach o gydweithwyr a bwrdd cynghori.

Gall yr Hwb Gwerth Cymdeithasol roi fframwaith i sefydliadau ar gyfer mesur newid mewn ffyrdd sy'n berthnasol i randdeiliaid. Gan ddefnyddio dulliau ansoddol, meintiol ac ariannol, maent yn cynhyrchu dadansoddiad gwerth cymdeithasol cadarn sy'n adrodd hanes sut mae newid yn cael ei greu i'r bobl sy'n defnyddio gweithgareddau a rhaglenni sefydliad.

**I gael gwybod mwy am Hwb Gwerth Cymdeithasol CHEME cysylltwch â:**

**Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau**
**Prifysgol Bangor**

**ned.hartfiel@bangor.ac.uk | a.makanjuola@bangor.ac.uk**

Social Value Hub



# Ynghylch CALIN

Mae Rhwydwaith Arloesi Celtaidd ar gyfer Gwyddor Bywyd Uwch (CALIN) yn rhwydwaith gwyddor bywyd datblygedig sy'n cysylltu busnes, y byd academaidd a gofal iechyd gydag arbenigwyr o chwe phrifysgol flaenllaw ledled Iwerddon a Chymru. Mae'n cynnig cyfle i fentrau ymgysylltu ag arweinwyr ym maes iechyd a llesiant, gwyddoniaeth feddygol a fferyllol uwch, nanotechnoleg a biotechnoleg. Mae'r rhwydwaith yn darparu mynediad at dechnoleg, arbenigedd gwyddonol, a rhwydwaith o arloeswyr gwyddor bywyd i gefnogi datblygiad cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau.

Mae Prifysgol Bangor yn arwain ar y thema iechyd a llesiant i CALIN ac yn ceisio cefnogi busnesau bach i ganolig (BBaChau) sy'n gweithio ym meysydd gwyddorau bywyd neu iechyd a llesiant.

Am fwy o wybodaeth **calin.wales**

Cysylltwch â ni **calin@bangor.ac.uk**